## Syniadau ar weddïo'n greadigol

**Defnyddio canhwyllau**

Mae yna nifer o wahanol ffyrdd y gallwch wneud hyn. Eglurwch fod canhwyllau yn rhoi goleuni. Dywedodd Iesu "*Myfi yw goleuni'r byd*" (Ioan 8:12). Defnyddiwch golau'r gannwyll i ganolbwyntio ar Iesu. Gallwch hefyd (yn ofalus) ddefnyddio'r gannwyll i ddod â goleuni wrth i chi weddïo dros bobl trwy osod y gannwyll fel ei bod yn goleuo lluniau o bobl neu ddarn o bapur gydag enw rhywun arno. Gweddïwch y bydd goleuni Crist yn disgleirio arnynt.

